



Cynghorwr Iechyd Meddwl


- ▶ Yr hyn y gallwn ni ei wneud i chi
- ▶ Cyfrinachedd
- ▶ Lwfansau Myfyrwyr Anabl (LMA)
- ▶ Cynllun Cefnogi Dysgu Personol (CCDP)
- ▶ Tystiolaeth Feddygol
- ▶ Apwyntiadau

Ffôn: 01248 383620 /382032

E-bost:

cynghorwriechydmeddwl@bangor.ac.uk

Mae'r daflen hon ar gael mewn gwahanol fformat



Y Cynghorwr Iechyd Meddwl:

yn darparu gwasanaeth i fyfyrwyr sy'n gwella o afiechyd meddwl, a all fod ag angen cymorth i reoli effaith straen, neu feddyginiaeth, ar eu hastudiaethau, neu i fyfyrwyr sy'n profi argyfwng iechyd meddwl, neu sy'n cael anawsterau iechyd meddwl am y tro cyntaf tra byddant yn y Brifysgol.

Beth allwn ni ei wneud i chi:

- Rhoi gwybodaeth am faterion a gwasanaethau iechyd meddwl. Asesu anghenion iechyd meddwl a helpu i osgoi neu reoli sefyllfaoedd o argyfwng.
- Helpu i sefydlu beth yw'r anghenion cymorth dysgu a chysylltu ag aelodau o'r staff, os bydd angen, i osod y newidiadau yn eu lle.
- Rhoi cyngor ar strategaethau i hwyluso astudio a thasgau bob dydd.
- Cysylltu gyda gwasanaethau eraill, fel y Meddyg Teulu, lle bo'n briodol, os bydd angen cefnogaeth arbenigol bellach.
- Cefnogi staff y brifysgol i ymdrin yn gyson ac yn sensitif â materion iechyd meddwl.

Cyfrinachedd:

Mae trafodaethau'n gyfrinachol, ac ni rennir gwybodaeth oni bai fod 'angen i rywun gael gwybod', lle bo hynny'n briodol a chyda'ch caniatâd penodol chi, oni bai bod yn rhaid ei rhannu fel 'dyletswydd gofal'. Am fwy o wybodaeth, gweler: <http://www.bangor.ac.uk/student-services>

Lwfansau Myfyrwyr Anabl (LMA):

Lle bo'n berthnasol, gall myfyrwyr wneud cais i'r sawl sy'n eu hariannu am LMA, sy'n gallu ariannu cymorth ychwanegol i'w helpu i drefnu a chwrdd â'u gofynion astudio, a sicrhau bod bywyd academiaidd a chymunedol y brifysgol yn fwy hygyrch iddynt.

Cynllun Cefnogi Dysgu Personol (CCDP):

Mae Cynlluniau Dysgu Personol wedi'u llunio i fyfyrwyr unigol allu gosod y trefniadau a'r strategaethau yn eu lle sydd eu hangen i gynorthwyo gyda goresgyn rhwystrau.

Tystiolaeth Feddygol:

Gofynnir i chi am dystiolaeth ddogfennol fel y gellir gwneud rhai addasiadau neu drefniadau (e.e. trefniadau arholiadau). Bydd hefyd yn ofynnol ichi gyflwyno tystiolaeth gan eich darparwr cyllid (e.e. Cyllid Myfyrwyr) os gwnewch gais am LMA.

I gael apwyntiad:

ffoniwch 01248 383620 /382032 neu e-bostiwch guasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Rydym yn y Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr, Llawr Gwaelod Isaf, Neuadd Rathbone. Mae ein swyddfeydd yn agored o 9.00 a.m. tan 5.00 p.m.